# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 12.03.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dyfrig Siencyn, Trevor Edwards, Selwyn Griffiths, Louise Hughes, Eric M. Jones, Brian Jones, Angela Russell R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol ), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Dyfed Edwards, Jean Forsyth Sian Gwenllian, Liz Saville Roberts

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL.**

Dim i'w nodi

**4. MATERION BRYS.**

Dim i'w nodi

**5. TREFNIADAU ARFAETHEDIG AR GYFER PENODI PRIF WEITHREDWR**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan Bennaeth Adnoddau Dynol yn nodi'r angen i ffurfioli trefniadau ar gyfer penodi Prif Weithredwr.
Argymhellwyd trefn i'r Pwyllgor ei ystyried:

1. Dyddiadau allweddol yn y broses

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau | 31.3.2014 |
| Tynnu rhestr fer | 07.4.2014 |
| Canolfan Asesu | 15.4.2014 |
| Cyfweliad Terfynol | 29.4.2014 |
| Cyflwyniad i'r Cyngor | 01.5.2014 |

Derbyniwyd y drefn.

2. Cwestiynau ar gyfer y cyfweliad

Dosbarthwyd saith cwestiwn posib ar gyfer y cyfweliad. Cynnwys y cwestiynau wedi eu trafod.
Bydd yr ymgeisydd yn cael gweld y cwestiynau un awr cyn y cyfweliad.

Bydd cwestiynau atodol hefyd yn cael eu derbyn yn ystod y cyfweliad.

**PENDERFYNWYD**
**I'r Adran Adnoddau Dynol ddewis pedwar cwestiwn ar gyfer y cyfweliad.**

3. Testun ar gyfer cyflwyniad gan yr ymgeiswyr.

   Testun posib wedi ei ddosbarthu.
   Penderfynwyd na ddylai'r cyflwyniad fod dim mwy na chwarter awr.
   Cynnig i symud y cymal 'yng Ngwynedd' i ddiwedd y frawddeg. Cytunwyd.

4. Cyflwyniad i'r Cyngor Llawn 1.5.2014

   a) Pwyllgor Penodi i gyfeirio ac argymell un ymgeisydd i'r Cyngor Llawn ar 1.5.14.
      Y Cyngor Llawn fydd a'r penderfyniad terfynol.
      Argymhellwyd y bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno'r un cyflwyniad i'r Cyngor Llawn ac y gwnaed i'r cyfweliad.
      Derbyniwyd yr argymhelliad.

   b) Cwestiynau i'r Ymgeisydd yn dilyn y cyflwyniad.

      Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.
      Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r drefn orau i'w mabwysiadu ar dderbyn cwestiynau ar ôl y cyflwyniad. Teimlwyd rhai yn gryf bod dewis ganddynt i godi cwestiwn o'r cyflwyniad a bod hyn yn gyfle da i weld gallu yr ymgeisydd llwyddiannus i ymateb. Er hynny, roedd eraill yn credu nad oedd angen sesiwn holi ac ateb.

      i) Cynnig i beidio gofyn cwestiynau.
         Pleidleisiwyd ar y cynnig
         Adroddodd y Cadeirydd bod y cynnig wedi syrthio.

      Mabwysiadu trefn ar gyfer sesiwn holi ac ateb.
      Roedd aelod o'r farn y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Penodi arwain y drafodaeth ar yr eitem benodol yma yn y Cyngor.
      Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro mai dyletswydd Cadeirydd y Cyngor yw rheoli'r cwestiynau.
      Gwnaed sylwadau y dylid cyfyngu amser ar gyfer y sesiwn holi ac ateb; cyfyngu nifer y cwestiynau; pob plaid i gael yr hawl i ofyn cwestiwn; rhoi cyfle i holl Aelodau'r Cyngor ofyn cwestiwn.

      ii) Derbyniwyd cynnig i ail drafod y penderfyniad o godi cwestiwn gan nad oedd dartyrisad amlwg ar y mater.
          Pleidleisiwyd rhoi y rheolau sefydlog ar un ochr.
          Adroddodd y Cadeirydd bod y rheolau sefydlog wedi eu rhoi ar un ochr.

      iii) Ail gynnig i beidio gofyn cwestiwn
           Pleidleisiwyd ar y cynnig
           Adroddodd y Cadeirydd bod y cynnig wedi syrthio.

iv) Cynnig amser penodedig o 10 munud am gwestiynau o'r llawr
Pleidleisiwyd ar y cynnig
Adroddodd y Cadeirydd pasiwyd y cynnig

**PENDERFYNWYD:**
**Cynnal sesiwn holi ac ateb am gyfnod o 10 munud gyda chwestiynau yn codi o'r llawr dan reolaeth Cadeirydd y Cyngor.**

c) Amseriad eitem Penodi Prif Weithredwr ar Raglen y Cyngor 1.5.2014.
Cytunwyd y dylai eitem Penodi Prif Weithredwr ymddangos ar ôl yr eitemau safonol.

5. Trefniadau blaenllaw ar gyfer cyfarfod tynnu rhestr fer 7.4.2014.

Adroddodd Pennaeth Adnoddau Dynol y bydd pecyn gyda swydd ddisgrifiad ynghyd â cheisiadau yn cael eu dosbarthu drwy law i Aelodau'r Pwyllgor Penodi wythnos ymlaen llaw. Atgoffwyd yr Aelodau y byddent yn derbyn y ceisiadau fel eitemau eithriedig.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:30pm a daeth i ben am 12:40pm